Yswiriant Teithio

Dewis Yswiriant Teithio

Gall Yswiriant Teithio eich gwarchod rhag y canlynol:

- **canslo neu derfynu'ch taith yn gynnar** am resymau penodol y tu hwnt i'ch rheolaeth chi, er enghraifft, eich salwch annisgwyl chi, perthynas agos neu aelod o'ch parti teithio
- **colli cludiant neu amser ymadael wedi'i ohirio** am resymau y tu hwnt i'ch rheolaeth chi
- treuliau meddygol ac argyfyngau eraill
- anaf personol a marwolaeth
- eiddo personol coll, wedi'i ddwyn neu ei ddifrodi, yn cynnwys paciau
- difrod neu niwed damweiniol yr ydych chi'n ei achosi i rywun arall.

Fe allwch brynu yswiriant teithio i warchod un daith sengl, neu bolisi blynyddol i warchod sawl taith. Gan fod y rhan fwyaf o bolisïau teithio yn eich gwarchod rhag canslo, fe ddylech chi brynu yswiriant wrth archebu'r daith. Mae rhai gwyliau pecyn yn cynnig cynnwys yswiriant teithio ond does dim rhaid i chi dderbyn hyn. Rydych chi'n rhydd i wneud eich trefniadau eich hun. Ni ddylai asiant teithio godi mwy o arian am wyliau pecyn oherwydd nad ydych chi yn dewis prynu eu hyswiriant. Os yw asiant teithio yn ceisio gwneud hyn cysylltwch â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506.

Gofynnwch am ddyfynbrisiau oddi wrth sawl cwmni yswiriant er mwyn eich helpu i gael y fargen orau ar gyfer eich amgylchiadau chi. Fe fydd angen i chi gymharu beth mae pob polisi yn ei warchod a:

- unrhyw **eithriadau**. Mae rhai polisïau yn eithrio **gweithgareddau peryglus** neu chwaraeon risg uchel megis sgïo neu ddeifio sgwba. Os ydych chi'n mynd ar wyliau sy'n cynnwys un o'r gweithgareddau hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy am eich yswiriant.
- **taliadau cychwynnol gorfodol.** Dyma'r swm mae'n rhaid i chi ei dalu tuag at gost hawliad. Gall y swm amrywio, yn dibynnu ar yr hawliad.
- **amodau ychwanegol**, er enghraifft, pa mor hir y mae'n rhaid gohirio'ch taith cyn y bydd eich yswiriwr yn talu iawndal i chi.

Gwiriwch os oes **cyfyngiad oedran** yn berthnasol

Gwiriwch eich polisi yswiriant **cynnwys y cartref,** oherwydd gall hwn eich gwarchod rhag colli neu ddifrod i'ch eiddo personol tra byddwch chi dramor. Efallai y penderfynwch chi eich bod am brynu yswiriant i warchod rhai o'r peryglon eraill tra byddwch chi dramor yn unig.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gall eich cwmni **cerdyn credyd** ddarparu rhywfaint o warchodaeth yswiriant am ddim os ydych yn defnyddio'r cerdyn i dalu am y gwyliau. Gwiriwch yn ofalus beth sy'n cael ei warchod. Yn gyffredinol, ni ddylid defnyddio hwn yn lle eich yswiriant eich hun achos efallai na fydd yn eich gwarchod rhag popeth.

Pan fyddwch chi'n prynu yswiriant, rhaid i chi ddweud wrth eich yswiriwr, neu'r person sy'n gwerthu'r yswiriant i chi, am unrhyw beth all effeithio'u penderfyniad i'ch yswirio chi a faint i godi am yr yswiriant. Er enghraifft, fe allai hyn fod ar gyfer cyflwr meddygol presennol y bydd yn rhaid i chi gael triniaeth ar ei gyfer tra i ffwrdd. Os fyddwch chi'n cadw gwybodaeth yn ôl, gallai hyn atal eich yswiriwr rhag talu allan unrhyw hawliad yn y dyfodol.

Unwaith y byddwch wedi prynu polisi yswiriant, rhaid i chi ddweud wrth eich yswiriwr cyn gynted ag sy'n bosibl am unrhyw newid yn eich amgylchiadau allai effeithio unrhyw hawliad yn y dyfodol.

Cofiwch fynd â chopi o'ch polisi yswiriant teithio i ffwrdd gyda chi.

Gwneud hawliad

Os oes angen i chi wneud hawliad ar eich polisi yswiriant teithio:

- gwiriwch eich bod o fewn **terfynau amser** i wneud y cais
- gwiriwch eich bod wedi'ch **gwarchod** am y sefyllfa yr ydych yn hawlio amdano. Fel arfer mae yna uchafswm y gellir ei hawlio o dan bob adran o'r polisi, a chyfyngiad ar y swm y gallwch ei hawlio am unrhyw eitem unigol
- gwiriwch eich polisi am unrhyw **delerau ac amodau** y mae'n rhaid i chi gwrdd â nhw
- **cysylltwch** â'ch yswiriwr cyn gynted ag sy'n bosibl i ofyn am ffurflen hawlio. Gall hyn fod cyn gynted ag y byddwch wedi cyrraedd adref. Efallai fod gan eich yswiriwr linell gymorth ryngwladol y gallwch ei defnyddio i gael cyngor am y gweithdrefnau y mae'n rhaid i chi eu dilyn. Cwblhewch y ffurflen hawlio yn ofalus, a chadwch gopi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn amgáu copïau o bob derbynneb berthnasol. Os ydych chi wedi'ch gwarchod hefyd am ran o'ch hawliad gan eich polisi cynnwys cartref, bydd rhaid i chi nodi hyn ar eich ffurflen.

Eiddo personol neu baciau coll, wedi'u dwyn neu eu difrodi
Bydd disgwyl i chi gymryd gofal rhesymol o'ch eiddo i leihau unrhyw golledion.

Bydd eich yswiriwr am dystiolaeth o'r golled neu'r difrod. Gall hyn olygu **rhoi gwybod i'r heddlu lleol** ac fe ddylid gwneud hyn o fewn 24 awr, os yn bosibl.

Os oes rhaid i chi gael rhai eitemau hanfodol yn lle'r rhai a gollwyd, er enghraifft taclau ymolch neu ddillad, gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn am **dderbynebau** oherwydd mwy na thebyg bydd angen darparu copïau i'ch yswiriwr Gofynnwch am dderbynebau am unrhyw wasanaethau hanfodol fydd eu hangen arnoch hefyd.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cofiwch os na fydd gennych bolisi 'hen am newydd', gall y swm gewch chi am eitem fod yn llai na chost ei adnewyddu. Mae hyn er mwyn cymryd i ystyriaeth unrhyw ddefnydd gawsoch chi o'r eitem yn barod.

Achosion meddygol brys ac anafiadau personol
Os bydd angen triniaeth feddygol arnoch tra byddwch i ffwrdd, cysylltwch â'ch yswiriwr dros y ffôn cyn gynted ag sy'n bosibl i gael **caniatad** ar gyfer y driniaeth. Os yn bosibl, fe ddylech chi geisio cysylltu â nhw cyn cytuno i gost y driniaeth.

Cofiwch gael **derbynebau** ar gyfer triniaeth a meddyginiaeth.

Ni fydd rhai polisïau yswiriant yn eich gwarchod am driniaeth o **broblem iechyd** yr oeddech yn gwybod amdani wrth brynu'r polisi. Efallai y cewch eich eithrio hefyd rhag hawlio cost meddyginiaeth sydd ei angen arnoch fel arfer, a'ch bod yn gorfod ei gymryd wrth i chi deithio.

Mewn rhai gwledydd Ewropeaidd, fe allwch chi gael triniaeth feddygol ar frys am ddim os oes gennych Gerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC). Yn ychwanegol, mae gan lawer o wledydd eraill gytundebau gofal iechyd gyda'r DU sy'n golygu y gallech chi gael triniaeth ar frys am ddim. Fe allwch wybod mwy trwy fynd i'r wefan www.doh.gov.uk/traveladvice/forme111.htm.

Mae yswiriant teithio fel arfer yn eich gwarchod os ydych chi'n **feichiog,** cyhyd â'ch bod mewn iechyd normal.

Canslo neu derfynu'ch taith yn gynnar
Bydd eich yswiriwr yn cwrdd â chais am ganslo neu derfynu taith yn gynnar os allwch chi ddangos fod gennych reswm da dros ganslo neu derfynu'n gynnar yn unig. Gall hyn gynnwys:

- salwch annisgwyl, anaf i chi neu'ch marwolaeth, eich partner neu gydymaith teithio
- os cynghorir menyw feichiog i beidio teithio am reswm meddygol a ddigwyddodd ar ôl i chi brynu'r yswiriant
- os gelwir arnoch i wasanaethu ar reithgor neu fel tyst yn y llys
- os digwydd tân, lladrad neu ddifrod annisgwyl yn eich cartref
- os cewch eich diswyddo.

Os bydd rhaid i chi ddychwelyd adref yn gynnar, bydd eich yswiriwr fel arfer yn talu unrhyw gostau teithio ychwanegol ac fe gewch chi arian yn ôl am lety gwyliau nas defnyddiwyd.

Sut i wneud cwyn

Os oes gennych broblem ynglŷn â hawliad yswiriant, gwiriwch eich polisi'n ofalus yn y lle cyntaf, er mwyn gwneud yn siŵr nad oes gan eich yswiriwr yr hawl i ddal yn ôl rhan o'r taliad neu'r taliad yn llawn. Gall hyn fod oherwydd:

- mae gennych dâ cychwynnol yn eich polisi

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- mae gennych eithriad yn eich polisi
- mae rhywun wedi'ch gorbrisio am eu gwasanaeth. Yn yr achos hwn, gall eich yswiriwr wrthod cwrdd â holl gostau eich cais a bydd yn rhaid i chi gwrdd â'r gweddill eich hun.

Os ydych chi am gwyno, ysgrifennwch at eich yswiriwr, gan roi manylion am eich cwyn, a sut yr hoffech iddo gael ei ddatrys. Os nad ydych chi'n fodlon â'r ymateb, gwnewch gwyn ffurfiol, gan ddefnyddio trefn gwyno eich yswiriwr.

Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad y drefn gwyno ffurfiol, ystyriwch fynd â'r gwyn ymhellach. Rhaid i bob yswiriwr fod yn atebol i reolau'r corff gwarchod cyllid, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA). Mae hyn yn golygu os oes gennych gwyn am yswiriwr y gallwch fynd ag ef at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Mae hwn yn wasanaeth am ddim sydd ar gael i bob daliwr polisi sydd eisoes wedi dilyn trefn gwyno'r yswiriwr. Bydd yr Ombwdsmon Ariannol yn ceisio datrys y gwyn trwy gyflafareddu. Os na ellir datrys yr anghydfod yn y ffordd hon, bydd yr Ombwdsmon Ariannol yn cychwyn ymchwiliad ffurfiol. Mae'r yswiriwr yn rhwym i'r penderfyniad terfynol a roddir ar ddiwedd yr ymchwiliad hwn, ond os nad ydych yn cytuno ag ef, rydych yn rhydd i fynd â'ch yswiriwr i'r llys. Am fwy o wybodaeth am yr Ombwdsmon Ariannol, fe allwch ymweld â'u gwefan ar www.financial-ombudsman.org.uk, neu eu ffonio ar 0845 080 1800.

Os brynoch chi'ch yswiriant oddi wrth asiant teithio neu drefnydd teithiau fel rhan o wyliau pecyn, mae'r rheolau rhywfaint yn wahanol. Fe allwch gwyno i'r Ombwdsmon Ariannol os yw'ch cwyn am y cwmni yswiriant lle prynoch chi'ch polisi. Sut bynnag, os yw'ch cwyn am y ffordd y gwerthwyd y polisi i chi gan yr asiant gwyliau neu drefnydd teithiau, mwy na thebyg bydd angen i chi fynd â'ch cwyn ymhellach (gweler isod)

Os yw'ch yswiriwr yn **aelod o Lloyds**, cysylltwch ag Adran Gwynion Lloyds ar: 020 7327 5693. Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad y gwyn hon, cwynwch wrth yr Ombwdsmon Ariannol.

Os ydych chi wedi rhoi cynnig ar bob opsiwn i ddatrys eich cwyn trwy'r drefn gwyno, ond heb lwyddiant, neu os yw'ch yswiriwr wedi'i leoli y tu allan i'r DU, neu os yw'ch cwyn yn erbyn asiant teithio neu drefnydd teithiau sy ddim yn atebol i reolau'r FSA, efallai y byddwch am ystyried cymryd camau cyfreithiol. Sut bynnag, fe ddylech chi ystyried mynd i'r llys pan fetho popeth arall. Y rheswm am hyn yw y gallai llys ddyfarnu swm o iawndal sydd yn llai os nad ydych chi wedi rhoi cynnig ar ddatrys y broblem mewn ffyrdd eraill cyn cymryd camau cyfreithiol.

Cyn cymryd camau cyfreithiol, mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o dystiolaeth. Bydd rhaid i chi brofi fod eich cais wedi'i warchod gan eich polisi yswiriant ac efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth arbenigol..

Gall eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol roi cyngor i chi ynglŷn â phroblemau yswiriant, a sut i gymryd camau cyfreithiol. Er mwyn chwilio am fanylion eich swyddfa Cyngor ar Bopeth agosaf, yn cynnwys y rheiny all eich cynghori trwy e-bost, ewch i wefan www.citizensadvice.org.uk

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dechrau achos llys
- Dull amgen o ddatrys anghydfod
- Gwyliau pecyn
- Gwasanaethau
- Yswiriant cynnwys cartref

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Awst 2007, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr